**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1180
Ein cyf/Our ref JMEWL/10797/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Awst 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf i roi gwybod i mi am ddeiseb sydd wedi dod gerbron y pwyllgor sy'n casglu llofnodion ar hyn o bryd er mwyn cynyddu'r addysgu a'r wybodaeth sydd ar gael am gamddefnyddio sylweddau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Bydd y Cwricwlwm newydd sydd yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2022 yn cynnwys Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles sydd â statws gydradd yn gyfreithiol i'r pum Maes Dysgu a Phrofiad arall yn y cwricwlwm. Bydd yn ehangu ffocws y cwricwlwm newydd ar iechyd a lles dysgwyr, sy'n cynnwys camddefnyddio sylweddau.

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad arloesol hwn yn rhoi strwythur holistaidd ar gyfer deall iechyd a lles ac mae'n ceisio datblygu gallu dysgwyr i ymdrin â chyfleoedd a heriau bywyd. Mae iechyd corfforol, iechyd meddwl a lles emosiynol a chymdeithasol yn elfennau o'r maes hwn. Bydd yn helpu dysgwyr i ddeall a gwerthfawrogi sut y mae'r elfennau hyn yn cydblethu, gan weld bod iechyd a lles da yn bwysig er mwyn caniatáu dysgu llwyddiannus.

O fewn y Maes Dysgu a Phrofiad hwn, mae'n bwysig bod digon o gwmpas i fod yn hyblyg er mwyn cefnogi dysgwyr. Mae'r 'disgrifiadau dysgu' yn y canllawiau ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad yn cynnwys y prif egwyddorion dysgu a manylion am sut y dylai dysgwyr symud ymlaen ar eu taith ar y continwwm dysgu. Mae'r disgrifiadau dysgu o dan 'Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes' a'r datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig yn sôn yn benodol am alluogi dysgwyr i "……. Dysgu sut mae'r ymennydd yn gweithio gan helpu dysgwyr i ddeall eu meddyliau, teimladau ac emosiynau. Sut y gall dewisiadau ffordd o fyw effeithio ar y corff dynol (gan gynnwys deiet, camddefnyddio sylweddau ac ymarfer corff)."

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cefnogir dysgwyr hefyd i ddatblygu dealltwriaeth er mwyn deall a chydnabod y cysylltiadau rhwng y newidiadau corfforol ac emosiynol sy’n digwydd a gallu addasu eu hymddygiad er mwyn cefnogi ei iechyd corfforol ac emosiynol. Mae datganiad o’r Hyn sy’n Bwysig ‘Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes’ hefyd yn cynnwys disgrifiad dysgu sy’n galluogi dysgwyr i “adnabod rhai mathau o ymddygiad, cyflyrau a sefyllfaoedd sy’n effeithio ar fy iechyd a lles corfforol, ac rwy’n gwybod sut i ymateb a chael cymorth mewn ffordd ddiogel” a fydd yn cefnogi dysgwyr i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ar sut i reoli ymddygiadau ac amodau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru (WPSP) ers 2004. Rydym yn buddsoddi £1.98m, bob blwyddyn, sy'n cael arian cyfatebol gan bedwar Heddlu Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys Swyddogion yr Heddlu yn mynd i ysgolion ac yn cyflwyno gwersi ar amrywiaeth o feysydd. Sefydlwyd y rhaglen yn wreiddiol i leihau nifer yr newydd-ddyfodiaid ifanc i'r system cyfiawnder troseddol ac i fynd i'r afael â materion camddefnyddio sylweddau. Dros y blynyddoedd, mae'r rhaglen wedi esblygu drwy ehangu ei chwmpas i ymdrin â materion diogelwch cymunedol a phersonol ehangach ym mhob cyfnod allweddol o'r cwricwlwm. Mae'r rhaglen graidd yn ymdrin â chamddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig, bwlio, diogelwch ar-lein, secstio, camfanteisio'n rhywiol ar blant a chydsyniad. Mae’n darparu rhaglen gytbwys mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae 50% o’r rhaglen yn canolbwyntio ar gyflwyno'r cynnwys craidd i ddiwallu anghenion disgyblion ac ysgolion a 50% yn canolbwyntio ar ymyriadau rhagweithiol ar ddiogelu a rheoli digwyddiadau.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language